# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 25 Ionawr 2018

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@cynulliad.cymru

**Rhag-gyfarfod preifat** (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 3

## 3 Ystyried adroddiad drafft - Prentisiaethau yng Nghymru

(09.30-10.00) (Tudalennau 1 - 29)

Dogfennau atodol:

Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

## 4 Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip - Diweddariad digidol (gan gynnwys Cyflymu Cymru)

(10.00-11.00) (Tudalennau 30 - 44)

Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Richard Sewell, Dirpwy Cyfarwyddwr, Is-adran Isadeiledd TGCh

Caren Fullerton, Prif Swyddog Digidol

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

EIS(5)-03-18(p1) Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Egwyl** (11.00-11.15)

## 5 Datganoli pwerau ynghylch porthladdoedd o dan Ddeddf Cymru 2017 - Pwerau newydd: Posibiliadau Newydd

(11.15-12.00) (Tudalennau 45 - 52)

Richard Ballantyne, Prif Weithredwr, Cymdeithas Porthladdoedd Prydain

Tim Reardon, Cyfarwyddwr Polisi, Siambr Llongau'r DU

Callum Couper, Rheolwr Porthladd Caerdydd a'r Barri, Cymdeithas Porthladdoedd Prydain

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

## 6 Sesiwn Cyflymu Cymru gyda Openreach - Seilwaith digidol Cymru

(12.00-13.00) (Tudalennau 53 - 60)

Kim Mears, Rheolwr Gyfarwyddwr Cyflwyno Seilwaith, Openreach

Ed Hunt, Cyfarwyddwr y Rhaglen Superfast Cymru, Openreach

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Gohebiaeth gan y Cadeirydd i'r cyrff perthnasol ynglŷn â chynllunio trafnidiaeth mewn digwyddiadau mawr

(Tudalennau 61 - 62)

Dogfennau atodol:

EIS(5)-03-18(p2) Gohebiaeth gan y Cadeirydd i'r cyrff perthnasol ynglŷn â chynllunio trafnidiaeth mewn digwyddiadau mawr

**Ôl-drafodaeth breifat** (13.00-13.15)

Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**PAPUR TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG AR GYFER PWYLLGOR YR ECONOMI, SEILWAITH A SGILIAU - Cynllun Gweithredu Digidol 2017-20**

**Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip: Ionawr 2018**

---

## Cyflwyniad

Ymddangosodd yr Ysgrifennydd Parhaol gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 2 Hydref 2017 ar gyfer sesiwn ynghylch heriau digideiddio. Yn ystod y sesiwn, bu trafodaeth ynghylch Cynllun Gweithredu Digidol Llywodraeth Cymru 2017-2020, dogfen a fwriadwyd ar gyfer cynulleidfa fewnol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd rhai o'r cwestiynau yn canolbwyntio ar faterion ynghylch polisi digidol Llywodraeth Cymru a hoffwn ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch y materion hyn.

Mae fy mhortffolio'n cynnwys seilwaith digidol, cynhwysiant digidol a thrawsnewid gwasanaethau digidol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru ac mae gennyf ddiddordeb mewn clywed barn y Pwyllgor ynghylch yr heriau a'r blaenoriaethau ar gyfer y portffolio.

## Dinasyddion Digidol

Mae dinasyddion Cymru yn defnyddio technoleg yn eu bywydau beunyddiol fwyfwy. Y llynedd, adroddodd Ofcom fod 74% o oedolion yng Nghymru yn defnyddio ffonau clyfar a bod 61% o aelwydydd yn berchen ar ddyfais llechen. Nid yw'n syndod bod dinasyddion yn disgwyl defnyddio'r dechnoleg hon a gwasanaethau digidol fel rhan o wasanaeth cyhoeddus modern ochr yn ochr â gwasanaethau masnachol eraill.

Mae canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol diweddaraf yn dangos bod cynnydd yn nifer y bobl ym mhob band oedran sy'n defnyddio'r gwasanaethau digidol sydd ar gael gan sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a bod lefelau da o foddhad â'r gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, rhaid inni gofio nad yw gwasanaethau digidol yn hygyrch i bob dinesydd. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau ddatblygu a darparu gwasanaethau digidol ar sail anghenion defnyddwyr a chynnwys y ddarpariaeth o drefniadau cymorth digidol a gynorthwyir i helpu defnyddwyr i ryngweithio hyd yn oed os nad oes ganddynt y sgiliau neu'r mynediad i wneud hynny ar eu pen eu hunain.

## Gwasanaethau Digidol y Llywodraeth

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu oddeutu 24 o wasanaethau digidol yn uniongyrchol i'r cyhoedd yng Nghymru, a'r mwyaf o'r rheini yw Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein gyda 18,000 o ddefnyddwyr. Mae'r gwasanaeth digidol hwn yn galluogi ffermwyr Cymru i wneud cais am daliadau amaethyddol uniongyrchol a rheoli eu taliadau ar-lein. Erbyn 2016, roedd 100% o fusnesau fferm yn llenwi eu ffurflenni ar-lein – yr Asiantaeth Dalu gyntaf yn y DU i gyflawni hyn.

Byddwn yn parhau i wneud gwelliannau i wasanaethau ar-lein sy'n bodoli eisoes ac yn ychwanegu nodweddion newydd atynt. Er enghraifft, y gwasanaeth cofrestru ar-lein gan Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n cynnwys ffurflen gais ar-lein a ddyluniwyd yn arbennig ar gyfer y defnyddiwr, ac sy'n arddangos gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cais yn unig, gyda swyddogaethau cymorth yn rhan ohoni a dolenni i ddeunydd defnyddiol.

Mae gennym hefyd nifer o wasanaethau digidol newydd ar raddfa fawr sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd gan gynnwys:

- **Casglu Trethi Cymru** – Bydd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn gwneud y mwyaf o systemau digidol i ddatblygu gwasanaeth casglu a rheoli trethi effeithiol i Gymru. Bydd cwsmeriaid yr Awdurdod yn cofrestru o ddechrau 2018 er mwn pontio'n ddidrafferth i drethi newydd Cymru o fis Ebrill 2018 ymlaen

- **Cynnig Gofal Plant i Gymru** – mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnig gofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio sydd â phlant 3 a 4 oed yn ychwanegol at Gyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar. Gan fod hwn yn gynnig wedi'i dargedu at rieni sy'n gweithio, bydd system ar-lein yn cael ei gweithredu i dderbyn ceisiadau a'u hasesu yn erbyn y meini prawf cymhwysedd.
- **Asesiadau ar-lein wedi'u personoli –** Bydd yr asesiadau hyn a ddyluniwyd ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion ledled Cymru yn addasu i alluoedd dysgwr ac yn cynnwys cyfleuster marcio awtomatig – gan leihau'r gwaith gweinyddol i ymarferwyr. Byddant yn cael eu cyflwyno fesul cam dros dair blynedd, gan ddechrau o'r flwyddyn academaidd 2018/19 a, thros amser, byddant yn disodli'r profion darllen a rhifedd cenedlaethol ar bapur y mae dysgwyr yn eu sefyll ym mlynyddoedd 2 i 9.
- **Y gofrestr etholiadol** – Er mwyn cynyddu i'r eithaf y nifer sy'n cofrestru i bleidleisio, mae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i sut y gellir defnyddio technoleg ddigidol i wella cyfranogiad pleidleiswyr. Cynhaliwyd ymgynghoriad ym mis Hydref 2017 yn gofyn am farn pobl ynghylch amrywiaeth o ddiwygiadau etholiadol gan gynnwys y ffyrdd y gall pobl gofrestru a bwrw eu pleidlais, a fydd yn helpu i lywio'r gwasanaeth digidol newydd.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ar gyfer pobl Cymru, y mae nifer fawr o bobl yn eu defnyddio. Er enghraifft, mae gwneud cais am basbort, llenwi ffurflen dreth, a chael treth ar gyfer car, oll yn wasanaethau gan Lywodraeth y DU a ddarperir ar-lein ac mae nifer fawr o bobl yn eu defnyddio.

**Seilwaith a Ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob gwasanaeth cyhoeddus**

Yn ychwanegol at ei gwasanaethau uniongyrchol ei hun ar gyfer y cyhoedd, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi seilwaith a llwyfannau ar gyfer y cyhoedd, ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyhoeddus ac yn benodol ar gyfer ysgolion.

Mae prosiect Cyflymu Cymru'n hwyluso mynediad i fand eang cyflym iawn i gartrefi a busnesau yng Nghymru na fyddent fel arall wedi gallu cael mynediad iddo drwy raglenni masnachol y sector preifat. Hyd ddiwedd mis Medi 2017, mae gan gyfanswm o dros 665,100 o eiddo yng Nghymru fynediad i fand eang cyflym iawn o dan y prosiect Cyflymu Cymru. Yn ddiweddar, cynhaliwyd arolwg marchnad agored gennym i'n galluogi i nodi'r eiddo nad yw ar hyn o bryd yn gallu sicrhau cysylltiad band eang cyflym iawn neu nad fydd yn cael cysylltiad o fewn y tair blynedd nesaf. Mae swyddogion yn bwriadu cynnal ymarfer caffael yn gynnar gyda'r nod o gychwyn prosiect i olynu Cyflymu Cymru yn y gwanwyn.

O ran ein buddsoddiad mewn band eang mewn ysgolion, mae ein rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol – Buddsoddi mewn Band Eang ar waith ar hyn o bryd i ddarparu band eang cyflym iawn i ysgolion ledled Cymru. Rhan o'r rhaglen hon yw'r llwyfan dysgu digidol Hwb sy'n darparu mynediad cyson i randdeiliaid addysg ledled Cymru i amrywiaeth eang o offer ac adnoddau digidol a ariennir yn ganolog, a all gefnogi'r broses o drawsnewid gweithgareddau yn y dosbarth.

Mae'r llwyfan Hwb yn parhau i gael ei ddatblygu yn unol â gofynion rhanddeiliaid. Yn 2018, bydd offer fel Google for Education yn cael eu cynnwys, a fydd yn ehangu ymhellach yr amrywiaeth o gyfleoedd digidol sydd ar gael i bob ysgol yng Nghymru. Hefyd, er bod Hwb wedi'i fwriadu'n wreiddiol i ddarparu offer ac adnoddau digidol i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru, mae'r galw enfawr o'r sector addysg ehangach wedi ein galluogi i ddechrau archwilio ei ddefnydd ehangach.

Mae gennym hefyd seilwaith cyffredin a rennir yng Nghymru drwy Rwydwaith Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus. Mae'r Rhwydwaith yn galluogi sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru i sicrhau gwell gwerth am arian yn eu defnydd o gyfathrebu drwy fand eang, drwy ddarparu dull o gydgasglu'r galw am wasanaethau

rhwydweithio ardal eang, a phrynu ar y cyd. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r cysylltedd rhwydwaith mwyaf hygyrch a chyda'r gwerth gorau i dros 4,000 o safleoedd y sector cyhoeddus ledled Cymru.

Yn gynharach eleni, cynhaliodd Llywodraeth Cymru a BT arolwg strategol manwl o seilwaith y Rhwydwaith i sicrhau bod y rhwydwaith yn abl i ddiwallu'r gofynion presennol a gofynion y dyfodol ar gyfer lled band, gwytnwch a'r gallu i dyfu'n unol â'r anghenion a chefnogi cydamcanion y sector cyhoeddus yng Nghymru. Arweiniodd yr arolwg eang hwn at ddyluniad gwell ar gyfer y rhwydwaith a fydd yn darparu'r diweddariad mwyaf arwyddocaol i'r rhwydwaith ers i'r rhaglen ddechrau. Erbyn mis Mawrth 2020, bydd gennym ôl troed wedi'i symleiddio ar gyfer y Rhwydwaith a byddwn wedi diogelu'r rhwydwaith craidd ar gyfer y dyfodol. Bydd y buddsoddiad hwn yn cynyddu'r lled band sydd ar gael yn y cydrwydwaith o leiaf 65%, yn cynnal y defnydd o wasanaethau telathrebu Ofcom i sicrhau'r gwerth gorau am arian ac yn lansio llwyfan hyblyg, gwydn y gellir ei ehangu'n gyflym.

Bydd Llywodraeth Cymru a BT hefyd yn cyflwyno Gwasanaeth canolog i hidlo'r we y gellir optio i mewn iddo ar gyfer y Rhwydwaith ym mis Ebrill 2018 a fydd yn caniatáu i Awdurdodau Unedig leihau costau'r gwasanaeth, gan fanteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad yr Adran Addysg a Sgiliau mewn cysylltedd ysgolion dros y Rhwydwaith, yn ogystal â chadw rheolaeth unigol dros bolisïau hidlo.

Er mwyn darparu datrysiad crwydro diogel i weithwyr y sector cyhoeddus yn sefydliadau Rhwydwaith Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus, bydd y Rhwydwaith hefyd yn ymuno â'r ffederasiwn govroam drwy'r DU gyfan yn 2018. Bydd y gwasanaeth hwn yn caniatáu i weithwyr symudol ymuno mewn modd di-dor a diogel â rhwydwaith WiFi ar safleoedd wedi'u galluogi lle bynnag yr hysbysebir govroam. Bydd y gwasanaeth hwn yn galluogi defnyddiwr crwydrol i gael mynediad uniongyrchol, diogel dros y Rhwydwaith i adnoddau TGCh yn eu sefydliad cartref. Drwy ymgorffori datrysiad y Rhwydwaith o fewn ffederasiwn govroam ledled y DU, bydd hefyd yn bosibl dilysu dyfeisiadau symudol yn ddi-dor mewn dros 2000 o safleoedd a alluogir gan govroam mewn rhannau eraill o'r DU. Bydd haenu gwasanaeth crwydro diogel govroam dros y Rhwydwaith yn gwella'r posibilrwydd o weithio'n hyblyg, a bydd yn rhoi hwb i gynhyrchiant drwy gysylltedd unrhyw amser unrhyw le ar gyfer gweithwyr symudol. Mae'r bartneriaeth yn gosod y seiliau ar gyfer integreiddio'n llawer agosach â'r sector cyhoeddus ac yn sicrhau buddiannau o ran maint na fyddai pob partner wedi'u cyflawni ar eu pen eu hunain.

**Data**
Yn yr oes ddigidol hon rydym yn creu mwy o ddata nag erioed o'r blaen. Fodd bynnag, er bod datblygiadau digidol a thechnolegol yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddefnyddio data'n effeithiol, mae ffynonellau newydd o ddata yn cyflwyno heriau newydd. Felly, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn sicrhau ein bod yn ymdrin â data mewn modd priodol a moesol. Yn ffodus, gan fod y Swyddfa Ystadegau Gwladol, gwaith Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw Prifysgol Abertawe a Chanolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru oll yn lleol, ynghyd â sefydliadau sy'n cael eu llywio gan ddata, fel y DVLA a Thŷ'r Cwmnïau, mae Cymru wedi bod yn ganolfan arbenigedd data ers tro a bydd hyn yn debyg o barhau gyda sefydliad y Campws Gwyddoniaeth Data yng Nghasnewydd. Mae angen inni sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r amrywiaeth o ddata sydd bellach ar gael inni, a'r sgiliau a'r gallu yn y rhanbarth, mewn perthynas â sbarduno'r defnydd o ddata i lywio'r penderfyniadau a wneir a'r canlyniadau i bobl.

O ran data, dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ar yr ymrwymiadau a amlinellwyd yn ein Cynllun Data Agored, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein llwyfannau data agored ystadegol a geo-ofodol, StatsCymru a Lle, ac rydym hefyd wedi bod yn annog pobl eraill mewn mannau eraill yn y sector cyhoeddus i fod yn fwy agored. I gefnogi hyn, byddwn yn sicrhau bod ein llwyfannau

data agored ar gael i eraill eu defnyddio i gyhoeddi eu data eu hunain. Mae gwneud ein data yn fwy agored hefyd wedi ein galluogi i ddefnyddio data mewn ffordd fwy effeithiol ac i gyfleu negeseuon allweddol yn haws drwy ddelweddu data yn well. Roedd hyn yn amlwg yn y cyhoeddiad rhyngweithiol o'r adroddiad Llesiant Cymru ym mis Medi y llynedd.

Er ein bod wedi gwneud cynnydd da gyda'n hagenda data agored, mae gennym ragor i'w wneud, yn enwedig o ran ein data rheoli. Fodd bynnag, rydym eisoes wedi dechrau gwaith yn y maes hwn drwy gyhoeddi data agored ar wariant cardiau caffael a gwariant o dros £25,000, ac rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn y sector cyhoeddus i sicrhau bod data ynghylch ein gweithlu ni a'u gweithlu nhw yn fwy agored. Rwyf am barhau i adeiladu ar y cynnydd hwn a'r gefnogaeth a gafwyd yn y Ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 'Data: Cynyddu Agoredrwydd ac Argaeledd', drwy gydweithio â chyrff y sector cyhoeddus i ddatblygu Cod Tryloywder ac addasu ein prosesau caffael er mwyn hybu amgylchedd agored a thryloyw ym maes caffael.

Mae'r dirwedd ddata'n parhau i newid, gyda Deddf yr Economi Digidol 2017 yn derbyn Cydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2017 a chyflwyniad y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) newydd ym mis Mai eleni. Mae Deddf yr Economi Ddigidol yn cynnig nifer o gyfleoedd yn sgil cyflwyno pwerau rhannu data newydd. Mae hefyd yn darparu eglurder y mae ei angen yn fawr, gydag ymarferwyr y sector cyhoeddus yn nodi'n gyffredin mai rhannu data yw un o'r prif rwystrau i drawsnewid effeithiol yn y sector cyhoeddus. Er mwyn gwneud defnydd llawn o'r pwerau rhannu data hyn, rydym ar hyn o bryd yn ymgynghori ar restr arfaethedig o gyrff cyhoeddus yng Nghymru yr ydym yn dymuno eu henwi yn y ddeddfwriaeth, gan eu galluogi i rannu data o dan y Ddeddf. Rydym hefyd yn ceisio barn ynghylch yr amcanion ar gyfer rhannu data y gallai Llywodraeth Cymru eu pennu ar gyfer Cymru yn y dyfodol. Rydym yn buddsoddi mewn gwaith peilot i ddefnyddio technoleg newydd i alluogi awdurdodau lleol i gydgysylltu eu setiau data, neu i rannu data â'i gilydd, mewn ffordd ddiogel a moesol.

Yn ddealladwy, mewn cyfnod lle rydym yn annog sefydliadau i fod yn agored ac i rannu mwy o ddata, mae'n bosibl y bydd pobl yn pryderu ynghylch diogelwch eu data. Efallai y bydd peth pryder hefyd y bydd y rheoliadau diogelu data newydd yn cyfyngu ar gynlluniau ar gyfer mwy o rannu data. Fodd bynnag, mae'r GDPR yn rhoi cyfle inni ddiogelu ein harferion data i'r dyfodol yn yr oes ddigidol hon. Drwy wneud hynny, bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder a sicrwydd i bobl ynghylch sut y bydd eu data'n cael eu defnyddio. Ar ôl dweud hynny, os ydym am annog mwy o rannu data, mae angen inni ddeall a chyfleu effaith y GDPR yn well.

**Trawsnewid Gwasanaethau Cyhoeddus**

Rwyf newydd ddod yn gyfrifol am y maes hwn ac rwyf am ddatblygu'r elfen hon o fy mhortffolio i sicrhau y gellir cyflawni'r uchelgeisiau yn Ffyniant i Bawb, gyda chefnogaeth trawsnewidiad wedi'i alluogi'n ddigidol. Mae'r thema 'Unedig a Chysylltiedig' yn trafod sut 'rydym yn adeiladu'r cysylltiadau hanfodol sy'n ei gwneud yn haws i bobl ddod ynghyd'. Nid oes amheuaeth y bydd y cynhwysiant digidol hwnnw yn ogystal â dull o ddylunio sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn hanfodol i gyflawni hyn. Felly, rhaid i ddarparu seilwaith modern a chysylltiedig fod yn flaenoriaeth i'r sector cyhoeddus yma yng Nghymru ac ni allwn ni fel Llywodraeth Cymru wneud hyn ar ein pennau ein hunain.

O ran Llywodraeth Leol, mae adroddiad SOCITM Advisory Ltd sy'n archwilio Llinell Sylfaen Ddigidol awdurdodau lleol yng Nghymru yn 2017 yn rhoi trosolwg o'r capasiti a'r gallu mewn meysydd fel gwasanaethau digidol, data a thechnoleg. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at bedwar maes allweddol; aeddfedrwydd digidol awdurdodau lleol, cynlluniau ar gyfer gwasanaethau TGCh i ddarparu gwasanaethau digidol, y defnydd o ddata i ddarparu gwasanaethau digidol, a rhannu arferion gorau a chydweithio. Bydd yr adroddiad yn sail i drafodaethau ag awdurdodau lleol ynghylch yr hyn y mae angen inni ei wneud. Cymerodd pob un o'r 22 awdurdod lleol gyfranogi a chyfrannu at sail dystiolaeth yr adroddiad ac felly mae'n darparu sail gadarn ar

gyfer ran yn y camau nesaf. Yn gynnar yng ngwanwyn 2018, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal deialog pellach â'r holl awdurdodau lleol ynghylch sut y byddwn yn datblygu'r gwaith hwn gan gynnwys yr hyn y mae'n rhaid ei wneud a phryd.

Mae pwerau amrywiol ac eang eisoes ar gael i awdurdodau lleol i roi cydwasanaethau ar waith. Mae natur eang y pwerau sydd ar gael yn golygu bod amrywiaeth o strwythurau posibl ar gyfer rhannu gwasanaethau gan awdurdodau lleol. Yn ystod y trafodaethau ag awdurdodau lleol, bu peth cytundeb bod cydwasanaethau yn faes lle bu'r cynnydd yn anghyson, ac mae potensial ar gyfer gwneud gwelliannau i effeithiolrwydd, gwytnwch ac ansawdd rhai gwasanaethau. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad diweddaraf ar y Papur Gwyn, mae gwahaniaeth barn o ran sut y gellir cyflawni hyn. Ymgynghorodd y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad' ar rannu gwasanaethau â natur trafodiadol neu swyddfa gefn. Amlygodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad mai ychydig o gefnogaeth sydd gan awdurdodau lleol o blaid y cynigion hyn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn credu y gellir gwneud arbedion effeithlonrwydd drwy gydweithio mewn gwasanaethau swyddfa gefn, digidol a TGCh - mae angen inni ymchwilio i'r cyfleoedd hyn ac ymestyn y drafodaeth bresennol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ddiweddar ar amrywiaeth o ddiwygiadau i system etholiadol llywodraeth leol (e.e. pleidleisio a chyfrif electronig). Ein bwriad yw gwneud deddfwriaeth i alluogi'r arferion hyn i gael eu treialu yn y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) arfaethedig. Bydd y Bil hwn hefyd yn darparu llwyfan deddfwriaethol i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarlledu nifer o'u cyfarfodydd dros y rhyngrwyd, ac i symleiddio'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n galluogi cynghorwyr i fynychu cyfarfodydd o bell. Mae'r diwygiadau hyn yn defnyddio technoleg ddigidol i wneud democratiaeth yn hygyrch i gynifer o bobl â phosibl.

O ran iechyd, yn 'Iechyd a gofal gwybodus – Strategaeth iechyd a gofal cymdeithasol digidol ar gyfer Cymru', a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015, pennwyd y cyfeiriad ar gyfer y pum mlynedd dilynol o ran uchelgeisiau a disgwyliadau er mwyn sicrhau buddiannau gwirioneddol a chanlyniadau gwell. Mae'r defnydd effeithiol o dechnolegau digidol yn cefnogi trawsnewidiadau ehangach i wasanaethau, yn galluogi defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol ar draws y gwasanaeth, ac yn grymuso cleifion a gweithwyr proffesiynol drwy ddarparu gwybodaeth yn unrhyw le, unrhyw bryd.

Mae'r cyflawniadau digidol allweddol hyd yn hyn yn cynnwys: sefydlu pensaernïaeth genedlaethol gyda byrddau iechyd gan ddefnyddio systemau clinigol cyffredin fel System Gweinyddu Cleifion Cymru, Porth Clinigol Cymru a Gwasanaeth Archifo Lluniau Cymru; mae cofnod Meddygon Teulu Cymru ar gael i feddygon teulu mewn lleoliadau y tu allan i oriau yn ogystal â chlinigwyr a fferyllwyr mewn gofal eilaidd; a, thrwy My Health Online, gall meddygon teulu gynnig gwasanaethau archebu apwyntiad a gwneud cais am bresgripsiwn amlroddadwy ar-lein i'w cleifion – mae mynediad i gleifion i grynodeb o'u cofnodion meddyg teulu hefyd yn cael ei roi ar waith drwy'r system hon.

Mae hon yn agenda drawsbynciol, ac rwy'n gweithio'n agos iawn gyda fy nghyd-Weinidogion yn y Cabinet i sicrhau y gall fy ngwaith gefnogi eu dulliau o roi eu polisïau ar waith.

**Diogelu busnesau ar gyfer y dyfodol**

Fel y dengys ein Cynllun Gweithredu Economaidd diweddar, rydym hefyd wedi ymrwymo fel Llywodraeth i sicrhau effeithiau ehangach o'n hymyriadau ariannol a sicrhau bod busnesau'n gwneud y mwyaf o botensial technolegau newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg.

Mae grymoedd fel awtomatiaeth, deallusrwydd artiffisial a dulliau eraill o ddigideiddio eisoes yn trawsnewid diwydiannau a busnesau unigol, gan dorri'r ffiniau traddodiadol rhwng sectorau

gwahanol yr economi. Mae cyfleoedd y chwyldro data hefyd yn gyrru achosion newydd o gydweithredu fwyfwy ar draws y sectorau.

Mae'r Cynllun Gweithredu Economaidd yn ceisio ailsefydlu ein cymorth mewn ffordd a all gynorthwyo i adeiladu diwydiannau'r dyfodol a sefydlu Cymru fel arweinydd yn y maes trawsnewid digidol.

**Galluogrwydd Llywodraeth Cymru**
Dangosodd y Pwyllgor Archwilio Cyhoeddus ddiddordeb brwd yng ngalluogrwydd digidol Llywodraeth Cymru a hoffwn bwysleisio sut rwy'n gweld hyn fel maes hanfodol yn y dyfodol. Er bod y cyfrifoldeb uniongyrchol dros wella sgiliau a gallu digidol yn gorwedd gyda'r Ysgrifennydd Parhaol, mae gan Weinidogion ddiddordeb cryf mewn gweld yr agenda hon yn llwyddo gan y bydd yn helpu i drawsnewid gwasanaethau i ddinasyddion.

Pan ddechreuais weithio ar yr agenda hon, roedd lefelau o ymwybyddiaeth ddigidol ymysg swyddogion polisi a swyddogion eraill yn isel ac nid oedd yr agenda wedi'i chydgysylltu. Roedd gwasanaethau newydd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu comisiynu a'u darparu'n annibynnol ar ei gilydd.

Fy niddordeb dros y 2 flynedd ddiwethaf oedd hyrwyddo dull mwy cydgysylltiedig ar draws Llywodraeth Cymru ymysg swyddogion sy'n cefnogi prosiectau digidol ar draws portffolio pob Gweinidog. Cyflawnwyd hyn drwy weithio gyda'r Prif Swyddog Digidol sydd wedi meithrin cymuned o arweinwyr digidol a data ar draws Llywodraeth Cymru. Mae'r arweinwyr hyn yn gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth yn eu meysydd o gyfrifoldeb polisi. Drwy gadeirio'r Grŵp Swyddogion Digidol a Data Gweinidogol, rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â'r swyddogion hyn, gan eu dwyn i gyfrif mewn perthynas â darparu gwasanaethau digidol gwell, mwy o gydweithio, dewisiadau technolegol effeithiol a'r defnydd da o ddata.

Er mwyn cefnogi'r agenda hon sy'n datblygu, bydd angen mwy o sgiliau mewnol ar Lywodraeth Cymru. Mae'r gwaith ar y gweill i wneud y gwasanaethau TGCh a ddarperir gan ffynonellau allanol yn rhai mewnol, i ddarparu rhaglen hyfforddiant digidol i'r staff ac i dyfu'r proffesiwn Digidol, Data a Thechnoleg o fewn Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan rywfaint o recriwtio allanol ar gyfer y rhai â sgiliau technegol, ond hefyd drwy raglen brentisiaeth ddigidol, gyda'r 9 prentis cyntaf wedi'u recriwtio yr Hydref diwethaf.

**Heriau**
Rydym yn wynebu heriau sylweddol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r cyni parhaus wedi gosod gofynion ychwanegol ar adrannau, a bydd y degawdau i ddod yn heriol tu hwnt gan fod gennym oll y dasg o ddarparu gwerth gwell am arian yn ogystal â wynebu'r her o gyllidebau sy'n lleihau a llai o staff. Yn ogystal, mae cyrff gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn gymhleth o ran eu trefniadau llywodraethu, eu diwylliant a'u systemau etifeddol.

Roeddwn yn falch iawn o weld effaith gref gychwynnol Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth ar sut y gwnaeth Llywodraeth y DU ddatblygu ei hagenda ddigidol. Amlygodd adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar drawsnewid digidol o fewn y Llywodraeth y llynedd ei llwyddiant o ran ail-lunio dull gweithredu'r Llywodraeth, ond roedd yn herio ei model cynaliadwyedd. Yn benodol, amlygodd yr adroddiad y risg o geisio cwmpasu cylch gwaith rhy eang gydag atebolrwydd aneglur. Rwy'n credu bod angen inni fod yn ystyriol o'r canfyddiadau hyn wrth ddatblygu ein hagenda ddigidol ein hunain.

Yn fy marn i, mae gormod o ffocws ar yr addewid o dechnoleg yn unig i gyflawni trawsnewidiadau. Rydym oll wedi gweld nifer o raglenni o dan arweiniad technoleg o fewn gwasanaethau cyhoeddus ar draws y byd yn arwain at fethiant. Rwy'n credu mai'r her yw newid y pwyslais er mwyn sicrhau mai cam cyntaf trawsnewid digidol yw deall anghenion y

cwsmer. Rhaid bod ffocws ar wella sut y caiff gwasanaeth ei ddylunio cyn agor y caead ar y dechnoleg. Rwyf wedi gweld enghreifftiau gwych o hyn mewn mannau eraill; er enghraifft, mae'r gwaith a wnaed yn y DVLA i drawsnewid rhai o'i wasanaethau a ddefnyddir gan nifer fawr iawn o bobl ar gyfer eu cwsmeriaid wedi creu argraff arnaf.

Mae arweinyddiaeth yn her hefyd. Ymhen ychydig flynyddoedd, rwy'n credu y bydd y cysyniad o arweinydd digidol wedi diflannu – mewn gwirionedd, dylai unrhyw arweinydd o unrhyw sefydliad gwasanaeth cyhoeddus ddeall beth yw ystyr digidol i ddefnyddwyr ei wasanaethau, ei sefydliad a'i staff. Yn y cyfamser, mae angen sicrhau bod gan ein holl arweinyddion ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru y sgiliau i wynebu'r her hon.

Un her i'r llywodraeth yw gwybod lle i roi blaenoriaeth i'w buddsoddiadau. Mae nifer y trafodiadau ar gyfer awdurdodau lleol yn eithaf isel ac, felly, gall fod yn anodd i awdurdod unigol wneud achos busnes cyllidol cymhellol ar gyfer buddsoddiad. Mae'n glir ei fod yn gwneud synnwyr inni edrych am atebion a gwasanaethau cyffredin ble bynnag yw'r lleoliad.

Rwy'n clywed gan arloeswyr ei bod yn anodd bod yn arloesol o fewn y sector cyhoeddus. Ymddengys bod caffael, mynediad at ddata, ag amharodrwydd i gymryd risg yn eu hatal rhag gallu rhoi eu gorau. Yn ôl adroddiad NESTA ar Arloesedd yn y Sector Cyhoeddus (2014), nid oes llawer o fodelau cymharol ar gyfer arloesedd o fewn y sector cyhoeddus ac mae'n anghyffredin i sefydliad allu rhoi cofnod clir o sut y mae'n arloesi. Er fy mod yn teimlo nad oes prinder syniadau da ac arloesedd yng Nghymru, ymddengys fod her o ran datblygu syniadau da. Rwy'n teimlo'n gyffrous ynghylch y cyfleoedd a gynigir gan Arloesi i Arbed – sy'n cefnogi sefydliadau i greu prototeipiau, profi a datblygu newidiadau cymhleth ac arloesol ar gyfer y ffyrdd y caiff gwasanaethau eu darparu, a'r Hwb Gwyddorau Bywyd, a sefydlwyd i sbarduno twf busnesau.

Yn olaf, mae her enfawr inni o ran cydgysylltu llawer mwy o wasanaethau cyhoeddus, a byddaf yn anelu at gyflawni hyn o'r cychwyn wrth ymwneud â'r agenda trawsnewid. Man cychwyn da yw dinasyddion Cymru: defnyddwyr gwasanaethau'r GIG, Llywodraeth Leol a hefyd Llywodraeth y DU. Rwyf am ganfod beth yw eu barn ynghylch gwasanaethau heddiw a beth y mae angen inni ei wneud i wella a diwallu eu holl anghenion, waeth beth fo'u gallu i gael mynediad i wasanaethau a ddarperir yn ddigidol a'u defnyddio.

**Julie James AS**
**Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**
**Ionawr 2018**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**National Assembly for Wales**
Economy, Infrastructure and Skills Committee

Eitem 7.1

15 Ionawr 2018

Annwyl Syr/Madam

**Effaith cynllunio cludiant ac isadeiledd ar Ddigwyddiadau Mawr yn Stadiwm y Principality yng Nghaerdydd**

Diolch ichi am ymateb i gais y Pwyllgor am wybodaeth ynglŷn â gwaith cynllunio trafnidiaeth mewn cysylltiad â Gornest Anthony Joshua yng Nghaerdydd ar 28 Hydref 2017.

Roedd y Pwyllgor wedi ysgrifennu yn dilyn sylw yn y cyfryngau a oedd yn awgrymu nad oedd popeth wedi mynd yn esmwyth ar y noson, o bosibl. Roeddem yn bryderus y gallai rhywfaint o'n gweithdrefnau, a sefydlwyd yn dilyn ein hymchwiliad i Deithio Cwpan Rygbi'r Byd, fod wedi methu o bosibl. Roedd eich ymatebion yn ddefnyddiol iawn i roi darlun cliriach a sicrwydd inni fod y gwaith aml-asiantaeth a rhannu gwybodaeth yn parhau'n rhan allweddol o'r gwaith o baratoi ar gyfer digwyddiadau mawr.

Ar ôl darllen eich ymatebion, mae'r Pwyllgor yn fodlon, er bod ciwiau hir am dacsis ar y noson, mae'n ymddangos bod agweddau eraill ar y gwaith cynllunio cludiant ar gyfer y digwyddiad wedi bod yn effeithiol.

Mae'r Pwyllgor yn falch o nodi bod gweithdrefnau cynllunio ar gyfer digwyddiadau mawr yn Stadiwm y Principality yn gweithio'n dda, fe ymddengys, ers ymchwiliad

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddESS@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddESS
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEIS@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEIS
0300 200 6565

gwreiddiol y Pwyllgor, ond mae cyfathrebu, cynllunio a darparu adnoddau effeithiol yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn sicrhau bod Caerdydd yn cadw ac yn gwella ei henw da fel un o'r lleoedd gorau yn y byd ar gyfer digwyddiadau chwaraeon ac adloniant rhyngwladol. Mae'r lefel hon o gydlynu yn arbennig o angenrheidiol pan fydd nifer o ddigwyddiadau yn y ddinas ar yr un dyddiad.

Gwn fod y Stadiwm yn parhau i wneud cais am ragor o ddigwyddiadau byd-eang, fel gornest Joshua v Parker ar 31 Mawrth, ac edrychaf ymlaen at weld Cymru'n cynnal y digwyddiadau hyn yn llwyddiannus yn y dyfodol.

Yn gywir,

Russell George

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau